heddwch

Rhif 62 > Gaeaf 2014/15 > CND Cymru > Yr Ymgyrch dros Ddiarfogi Niwclear

# Trident: Y Cwis

## Faint wyddoch CHI am system arfau niwclear Prydain?

**1. Faint mae Trident yn ei gostio i bobl Prydain bob munud?**

*a) £5,707* *b) £570* *c) £57*

**2. Faint o bobl y gallai arfogaeth niwclear Trident Prydain eu lladd?**

*a) 3 miliwn* *b) 32 miliwn* *c) 320 miliwn*

**3. Am sawl blwyddyn y gallai'r £100 biliwn a glustnodwyd ar gyfer olynydd i Trident dalu'n llawn am ein holl wasanaethau Damweiniau ac Achosion Brys?**

*a) 4* *b) 40* *c) 20*

**4. Faint o swyddi y gellid eu creu ledled Prydain pe penderfynai Llywodraeth San Steffan fuddsoddi £100 biliwn mewn isadeiledd gwyrdd a chymdeithasol?**

*a) 20,000* *b) 2,000,000* *c) 200,000*

*Atebion ar dudalen 2*

# Ie neu Na, Rhaid Cael Gwared o'r Pla!

***Mae Prydain wedi meddu ar arfau niwclear ers mwy na 50 mlynedd. Mae'r toriadau enbyd mewn gwariant ar iechyd, addysg, pensiynau a budd-daliadau anabledd yn parhau, ac eto, bwriad y llywodraeth o hyd yw sicrhau olynydd i Trident am gost o fwy na £100 biliwn. Dylai Prydain a'r byd fod yn rhydd o bla'r arfau niwclear anfoesol hyn. Rhaid cael gwared o Trident a gwario'n hadnoddau ar anghenion dynol gwirioneddol.***

## Yr Alban

**Ychydig fisoedd yn ôl roedd llygaid pawb, yn enwedig ymgyrchwyr gwrth-niwclear ym mhedwar ban, ar yr Alban.**

Efallai nad dyna'r canlyniad y gobeithiem amdano, a allai fod wedi arwain at ddiarfogi niwclear ym Mhrydain a fyddai wedi bod yn esiampl i wledydd niwclear a rhai sy'n chwennych arfau niwclear ledled y byd, ond dydy ymgyrchwyr dros heddwch, wrth gwrs, byth yn digalonni.

Mae deffroad gwleidyddol rhannau helaeth o'r Alban yn dal yn destun rhyfeddod. Cawn weld beth fydd effaith ymgyrch y refferendwm ei hun, ac ymdrechion clodwiw CND yr Alban i gysylltu pleidlais 'Ie' â thranc Trident, ar yr etholiad cyffredinol. Mae'n sicr wedi effeithio ar y ddadl ynglŷn â phenderfyniad 2016 p'run ai i gael system arfau niwclear newydd yn lle Trident ai peidio.

Anadlodd ynni'r ymgyrch 'Ie' fywyd newydd i'r ymdrech i symud Trident o'r Alban, ynghyd â phryder cynyddol ynglŷn a chost a pheryglon lleoli arfau niwclear ar afon Clud. Dangoswyd bod y gwrthwynebiad i Trident hyd yn oed yn gryfach na'r gefnogaeth i annibyniaeth.

Yn ystod gwarchae ôl-Refferendwm Trident Ploughshares ar bencadlys Trident yn Faslane, dywedodd y gweithredydd Brian Quail nad yw canlyniad y Refferendwm yn golygu y bydd polisi'r 'DU' o ddibynnu ar arfau cyflafan ddiwahân yn parhau.






*I'r gwrthwyneb,* meddai, *gwyddom bod y mwyafrif helaeth o Albanwyr, yn cynnwys rhai a bleidleisiodd Na, yn gwrthod cynlluniau San Steffan ar gyfer olynydd i Trident, fel y mae mwyafrif pobl Prydain.*

## Eich Pleidlais yn erbyn Olynydd i Trident yn 2015

**Bydd y llywodraeth a etholir ar y 7fed o Fai yn cynnal y bleidlais ar olynydd i Trident yn y Senedd yn 2016.**

Lansiwyd ymgyrch 'Ailfeddwl Trident' yn Llundain i roi'r cynlluniau i wario £100bn+ ar olynydd i Trident ar yr agenda ar gyfer etholiadau San Steffan ym mis Mai 2015.

Wrth i'r adnoddau ar gyfer iechyd, addysg a lles gael eu lleihau'n ddybryd, rhaid gwneud i'r rheini sy'n dymuno ein cynrychioli yn San Steffan ddeall nerth y gwrthwynebiad i gynlluniau i wastraffu mwy na £100bn ar arfau niwclear newydd.

RETHINK TRIDENT

Mae Archesgob Cymru, Barry Morgan, wedi ymuno â'r gynghrair hon, gan ddweud *ni ellir cyfiawnhau olynu Trident, yn foesol, yn strategol neu'r ariannol. Ni allwn ddadlau yn erbyn arfau niwclear gwledydd*

**Trident: Yr Atebion**

**1(a). 2(c). 3(b). 4(b).**

*eraill os ydym yn parhau i fuddsoddi yn ei harfau niwclear ein hunain.*

Nododd Plant yng Nghymru, ymhlith nifer o broblemau eraill yn gysylltiedig â thlodi, bod chwarter teuluoedd cefn gwlad Cymru eleni yn byw ar incwm o lai na £10,000 y flwyddyn. Mae Llywodraeth Cymru a chynghorau lleol yn cael eu gorfodi i gwtogi ar wasanaethau cyhoeddus, ac mae'r GIG, Gwasanaethau Cymdeithasol ac Addysg yn dioddef.

A hyn oll tra bod llywodraeth gyfredol San Steffan yn dod o hyd i'r adnoddau i dalu am arfau dinistr torfol newydd a mwy marwol.

## hedd>weithredu:

Mwy: www.rethinktrident.org.uk
Cofiwch godi Trident a chost olynydd iddo mewn unrhyw drafodaeth gyda darpar-ymgeiswyr seneddol:

- Byddai dileu Trident a pheidio â chael olynydd iddo yn arbed mwy na £100bn i ni. Byddai buddsoddi cyfran fechan o hyn mewn datblygu technoleg ynni adnewyddadwy yn creu swyddi real a chynaliadwy.
- Byddai dileu Trident hefyd yn cyflawni ymrwymiad Prydain i ddiarfogi o dan y Cytundeb Atal Ymlediad Niwclear (CAY), gan osod esiampl trwy gyfeirio'r ffordd at fyd mwy diogel, lle caiff anghydfod ei ddatrys heb ddefnyddio dulliau trais a bwlio.

## Gweithredu o'r Brig yn y CU

**Darllenodd Llysgennad Seland Newydd, Dell Higgie, ddatganiad yn 'condemnio'n ddiamod ddefnyddio arfau niwclear o dan unrhyw amgylchiadau'.**

Fe'i harwyddwyd gan 155 o wledydd mewn cyfarfod yn y CU ym mis Hydref. Dywedodd: *Mae'n fater gwaelodol i oroesiad y ddynolryw na ddylid defnyddio arfau niwclear byth eto, o dan unrhyw amgylchiadau. Ni ellir ymdrin yn ddigonol ag effeithiau trychinebus ffrwydrad niwclear, boed trwy ddamwain, ar gam neu o fwriad.*

*Mae pob gwladwriaeth yn rhannu'r cyfrifoldeb dros atal defnyddio arfau niwclear, atal eu hymlediad fertigol a llorweddol, a sicrhau diarfogi niwclear, yn cynnwys trwy gyflawni amcanion y CAY a'i wneud yn hollgyffredinol.*

Nid arwyddodd Prydain y datganiad.

## hedd>weithredu:


Gweler datganiad llawn Dell Higgie yn http://tinyurl.com/qhhag5v

## Costau Olynydd i Trident

**Amcangyfrif Sefydliad Brenhinol y Gwasanaethau Unedig (RUSI) o gostau oes olynydd i Trident, gan ragdybio bywyd 25-mlynedd ynghyd â 5 mlynedd ychwanegol o wasanaeth, gyda'r dyluniad adweithydd Babcock PWR3 newydd.**

£100 biliwn: Yn cynnwys cost ychwanegol (£12 biliwn o leiaf) y Rhaglen Gynnal Galluoedd Ergydion Niwclear yn SAA Aldermaston/Burghfield. ▶






▶ Ffigyrau ar sail prisiau 2012, heb gynnwys chwyddiant yn y dyfodol na chostau anhysbys storio gwastraff ymbelydrol am gyfnod amhenodol. www.rusi.org/trident

## Cytundeb y DU-UD – Dim Trafodaeth

**Gallai Prydain fod ar fin cymeradwyo Cytundeb Cyd-amddiffyn (MDA) yr UD-DU yn dawel, heb drafodaeth.**

Gwnâi hynny Brydain hyd yn oed yn fwy dibynnol ar arbenigedd yr UD ar gyfer unrhyw raglen yn lle Trident. Arwyddwyd y cytundeb yn wreiddiol ym 1958 ac adolygir ac adnewyddir yr amodau gan y ddwy lywodraeth bob degawd.

Nid peth newydd mo'r ymgais i fygu trafodaeth. *Byddai dadl ar adnewyddu'r MDA yn cael ei defnyddio gan rai fel cyfle i godi cwestiynau ehangach parthed adnewyddu'r braw-atalydd niwclear . . . a'n dyletswyddau o dan y Cytundeb Atal Ymlediad niwclear* nodai papur cefndir mewnol gan y Weinyddiaeth Amddiffyn ar gyfer gweinidogion amddiffyn Llafur yn 2004.

### hedd>weithredu:

A ydy'ch AS wedi arwyddo EDM 153: Debate on US-UK Mutual Defence Agreement? Edrychwch arno yn www.parliament.uk/edm/2014-15/153 sy'n galw am gynnal dadl ffurfiol. Mae www.writetothem.com yn ei gwneud hi'n hawdd cysylltu ar-lein.

## Bancwyr a'r Bom

**Roedd $402 biliwn ar gael i gynhyrchwyr arfau niwclear trwy law cwmnïau ariannol byd-eang yn 2014.**

Mae'r adroddiad Don't Bank on the Bomb, a gyhoeddwyd gan ICAN a'r mudiad heddwch o'r Iseldiroedd PAX, yn rhestru 411 o fanciau, cwmnïau yswiriant a chronfeydd pensiwn sydd â buddsoddiadau mewn 28 o gwmnïau sydd wrthi'n cynhyrchu, cynnal a chadw neu storio arfau niwclear.

Ym Mhrydain, y banciau â'r buddsoddiadau mwyaf yw'r Royal Bank of Scotland a Barclays.

Mae rhai sefydliadau ariannol yn cydnabod y stigma sy'n gysylltiedig ag arfau niwclear fel y dengys newidiadau mewn polisïau sy'n gwahardd neu'n cyfyngu ar fuddsoddi yn y diwydiant yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Ar sail y dystiolaeth yn yr adroddiad, mae gweithredwyr ledled y byd yn galw ar sefydliadau ariannol a llywodraethau i atal y buddsoddi yma mewn arfau dinistr torfol unwaith ac am byth.

### hedd>weithredu:

Er mwyn dwyn pwysau ar eich banc neu i ddysgu mwy, darllenwch yr adroddiad: http://www.dontbankonthebomb.com

## NFLA

Ceir cyflwyniadau o Seminar yr Awdurdodau Lleol Di-niwclear (NFLA) a gynhaliwyd ym mis Tachwedd yng Nghaerdydd ar wefan NFLA, www.nuclearpolicy.info (gweler 'Digwyddiadau Diweddar), yn cynnwys yr Ysgrifennydd, Sean Morris – y diweddaraf am weithgaredd NFLA a'i adroddiad ar bolisi ynni awdurdodau lleol; Brian Jones, CND Cymru – adroddiad ar ei Daith Astudio i Fukushima; Tim Deere-Jones, ymgynghorydd llygredd morol annibynnol – pryderon ynghylch gwastraff o Hinkley.

# Dydd Heddwch Rhyngwladol yn Wrecsam, Aberteifi ac Aberporth

**Nid Dydd Heddwch, mewn gwirionedd, ond mwy o benwythnos maith rhwng y 19eg a'r 22ain o Fedi.**

Yn Wrecsam, cynhaliwyd achlysur cyhoeddus yng nghanol y ddinas, gyda munud o ddistawrwydd dros heddwch byd-eang, seremoni gylch a gwasanaeth ar gyfer pobl o bob cred ac anghredinwyr. Treuliodd gweithredwyr heddwch, cefnogwyr a'r cyhoedd y prynhawn yn dathlu'n un gymuned heddychlon gyda cherddoriaeth fyw, cerddi a gwahanol weithgareddau.

Darllenodd Alan Edwards, Maer Wrecsam, gerdd a luniodd ar gyfer yr achlysur. Roedd yna stondinau ac arddangosfeydd gwrth-ffracio, yn erbyn rhyfel, gwrth-niwclear, yn erbyn y fasnach arfau, ac i gefnogi Gasa a Chelsea Manning, a detholiad eang o faneri heddwch a gweithdai i bawb.

Dilynwyd hyn gan Ddydd Heddwch Blynyddol yr Ysgolion, gyda chyfranogiad 7 o ysgolion Wrecsam. Cymerodd y myfyrwyr ran mewn gweithdai ar Filitariaeth a Phobl Ifanc, Cyfyngderau Moesol mewn Rhyfel, Menywod a Phlant yn Afghanistan, Gwrthwynebwyr Cydwybodol yn y Rhyfel Byd Cyntaf, a Delio â Theimladau Negyddol. Anerchwyd myfyrwyr iechyd a gofal cymdeithasol a gwasanaeth cyhoeddus ar heddwch a gwrthdaro.

Meddai'r trefnydd, Genny Bove: *Eleni, fel pob blwyddyn, trefnwyd y digwyddiad trwy ymdrechion gwirfoddol ac ewyllys da pobl gyffredin sy'n ceisio adeiladu byd gwell o'r gwraidd i fyny. Wrth edrych allan o Wrecsam, mae prinder heddwch dybryd. Gyda'r sefyllfa yn y Dwyrain Canol yn dal i waethygu, ac ymyriad milwrol gorllewinol heb ddim sail gyfreithiol yn gwneud dim ond lledaenu rhyfel, caiff mwy o bobl gyffredin eu lladd, eu clwyfo, eu dadleoli a'u trawmateiddio, gan esgor ar fwy o gasineb ac eithafiaeth.*

*Fel y dywedodd Mahatma Gandhi: 'Does dim ffordd at heddwch; heddwch yw'r ffordd'.*



Genny Bove

## Drapia'r Dronau

**Wrth i bobl ym mhedwar ban ddathlu Dydd Heddwch Rhyngwladol y CU (Medi'r 21ain), ymgasglodd mwy na 150 o bobl o bob rhan o'r de a'r Canolbarth ger Parc Aberporth.**

Roedd y digwyddiad, gweledigaeth menyw leol anhygoel, Kate Sherringer, ar ffurf gweithred symbolaidd 'Drapia'r Dronau' a 'Gwlân yn erbyn Arfau'. Roedd Kate a'i theulu, ffrindiau a chefnogwyr CND Cymru wedi treulio rhan helaeth o'r flwyddyn yn gweu ar ei gyfer. Galwyd am derfyn ar filitariaeth ac am atal cynlluniau i wario £100 biliwn o arian trethdalwyr ar olynydd i Trident – system arfau niwclear Prydain. Roedd yr holl siaradwyr yn unfrydol yn eu condemniad o ryfelgarwch.

Jill Evans ASE: *Mae technoleg rhyfel, wrth gwrs, yn newid o hyd ond yr hyn nad yw'n newid yw'r defnydd a wneir o'n gwlad i arbrofi ac ymarfer ar gyfer rhyfel. Yn Aberporth, datblygir dronau ar gyfer rhaglen gwerth* ▶

*miliynau y Weinyddiaeth Amddiffyn – ffaith na allwn ymfalchïo ynddi.*

Pwysleisiodd Jim Scott, y Blaid Werdd, y niwed a achosir i'r amgylchedd gan filitariaeth: *... defnyddir technoleg gan lywodraethau a chwmnïau olew mawr i reoli ac ecsploetio rhannau diymgeledd o'r byd, hybu ansefydlogrwydd a rhyfel, a'n datgysylltu oddi wrth y weithred o ladd trwy wneud hynny o hirbell. Rhaid i ni gywiro a dadwneud y niwed amgylcheddol a achosir gan y agwedd hon cyn ei bod hi'n rhy hwyr.*

Dywedodd Sue Lent, Cyngor Dinas Caerdydd, ymgyrchydd cyson dros heddwch a chyfiawnder, ei bod hi a'i theulu wedi bod yn dod ar wyliau i orllewin Cymru ers degawdau, ond eu bod bob amser wedi ystyried y safleoedd milwrol ger Aberporth yn graith ar y dirwedd, yn difetha ardal sy'n eithriadol o hardd fel arall.

Ysgrifennydd Cenedlaethol CND Cymru, Jill Gough: *Rydym am i Geredigion a gweddill Cymru fod yn rhan o'r ateb – nid yn rhan o'r broblem. Yma, lle mae pobl yn gorfod defnyddio banciau bwyd a cheisio cymorth i dalu biliau ynni, tra bod biliynau'n cael eu gwario bob blwyddyn ar arfau, mae'n bryd i ni ailystyried ein blaenoriaethau.*

Dilynwyd canu Côr Gobaith Aberystwyth, Côr Cymuned Llandudoch, a Chôr Cochion Caerdydd gan gerddi teimladwy gan Paul Hawkes a Dave Rendle, Katy Beddoe a Patrick Dobbs, a darlleniad o gerdd Waldo Williams, Y Tangnefeddwyr, gan Megan Williams. Caewyd y ffyrdd wrth i 2 km o sgarff lliwiau'r enfys a wewyd yn lleol gael ei dirwyn o gwmpas ac ar draws mynedfa Parc Aberporth, a'r ffyrdd a chylchfan gyfagos, a chafwyd dwy funud o ddistawrwydd dwys er cof am holl ddioddefwyr rhyfel.

Fel rharweiniad i'r dydd, cynhaliwyd digwyddiad stryd lliwgar a cherddorol ar Fedi'r 20fed, y tu allan i Neuadd y Dref, Aberteifi.

# Pabi Gwyn

**Cynhaliwyd gwylnosau a seremonïau heddwch yn Arberth, Aberystwyth, Casnewydd a Threfyclo eleni, gan osod torchau o babïau gwynion ar gofebau trefi, neu yn eu hymyl.**

Gosodwyd torchau o babïau gwynion gan Gyngor Tref Aberystwyth, Grŵp Heddwch a Chyfiawnder Aberystwyth, Côr Gobaith a Menywod mewn Du mewn digwyddiad arbennig yn dilyn prif seremoni'r pabïau cochion wrth gofeb ryfel y dref. Yn anffodus, cafodd y torchau eu symud rai oriau'n ddiweddarach a'u taflu i fin sbwriel.

Ailosododd ymgyrchwyr heddwch lleol dan arweiniad Côr Gobaith a Menywod mewn Du y torchau mewn ail seremoni rai dyddiau'n ddiweddarach. Mae'r grŵp yn bwriadu defnyddio'r digwyddiad i hysbysu pobl ymhellach ynglŷn ag ystyr y Pabi Gwyn.

Am y tro cyntaf, cafodd Gweithredu dros Heddwch a Chyfiawnder Trefyclo ganiatâd i osod eu torch er cof am holl ddioddefwyr rhyfel ar ôl negydu gofalus a diddorol gyda Chyngor y Dref a'r Lleng Brydeinig.

Dywedodd Camilla, o Grŵp Pabi Gwyn Tryfyclo: *Calondid mawr i mi oedd cael y fath gefnogaeth gan y Cyngor – dywedodd sawl person gymaint yr oeddynt yn arswydo at farwolaeth menywod a phlant mewn rhyfel. Mae'n amlwg bod pobl wedi sylwi ar ein teyrngedau i Gasa er na chawsai dim byd ei ddweud. Ni ddywedodd neb ar unrhyw adeg eu bod yn erbyn ein gwylnos heddwch; y cwestiwn oedd ble i'w chynnal.*

*Teimlwn hefyd ein bod wedi cychwyn dialog go iawn gyda'n Lleng Brydeinig leol hefyd. Mae'r to newydd yn meddwl yn wahanol i'w rhagflaenwyr. Mae'n gwestiwn gwleidyddol hefyd: dylai'r gefnogaeth mae'r Lleng yn ei rhoi i gyn-filwyr fod yn dod oddi wrth y Weinyddiaeth Amddiffyn sydd, yn hytrach, yn golchi eu dwylo o filwyr sydd wedi gadael y fyddin. Felly mae hyd yn oed y fyddin yn teimlo effeithiau'r llymder.*

*Gobeithiwn y bydd gwylnos heddwch y pabi gwyn yn mynd yn achlysur blynyddol ac y bydd pabïau gwynion yn y man yn rhannu lle ar risiau'r gofeb gyda'r rhai cochion.*

## hedd>weithredu:

Rhaid lledaenu neges y Pabi Gwyn ymhellach. Am hanes Trefyclo, cysylltwch â Camilla neu Angie: 01547 520 929 neu gweler 'nodyn' ar dudalen facebook CND Cymru.
I gefnogi Côr Gobaith, cysyllter â Pat Richards: patriciarichards42@hotmail.com

## CRYNODEB NEWYDDION CYMRU

# Hedfan Barcutiaid, nid Adar Angau

**Ar y Dydd Gweithredu Byd-eang cyntaf yn erbyn Defnyddio Dronau i Ysbïo a Lladd (Hydref 4ydd), bu ymgyrchwyr mewn mwy na 40 gwlad yn gweithredu'n uniongyrchol a chreadigol ar yr un pryd.**

Yng Nghymru, cyfarfu gweithredwyr heddwch ar Draeth Poppit ger Llandudoch ac hefyd yn yr Ais, Caerdydd i fynnu ar goedd bod llywodraethau a sefydliadau eraill yn rhoi'r gorau i ariannu, cynhyrchu a phrynu dronau milwrol, a pheidio â'u hwyluso trwy 'fuddsoddi' mewn isadeiledd – fel y gwnaeth Llywodraeth Cymru ym Mharc Aberporth ac yn Llanbedr.

Ar Draeth Poppit, buwyd yn hedfan barcutiaid fry yn yr awyr las, glir uwchlaw aber afon Teifi. Mae hedfan barcut yn gamp genedlaethol boblogaidd yn Afghanistan; Afghaniaid yw 80% o'r rhai a laddwyd gan ddronau.

Mae hedfan barcutiaid yn dangos cefnogaeth i bawb sy'n byw mewn ofn o achos y peiriannau ysbïo a lladd o hirbell hyn.

Mae Dronau 'Watchkeeper' El-Bit Israelaidd/Thales Ffrengig yn cael eu datblygu a'u profi i ddibenion ysbïo, cadw gwyliadwraeth a thargedu uwchlaw'r Canolbarth. Mae'r awyrennau dibeilot hyn yn hedfan o Barc Aberporth yng Ngheredigion, dros ogledd Sir Benfro, Sir Gâr ac ymlaen i feysydd hyfforddi milwrol Mynydd Epynt ym Mhowys.

Mae trethdalwyr Cymru yn talu hefyd am ddatblygu dronau arfog sy'n cael eu defnyddio yn nwyrain Lloegr.

Yng Nghaerdydd, bu'r Côr Cochion yn canu caneuon heddwch yn yr Ais. Ymunwyd â nhw gan eraill i brotestio ger Banc Barclays, sy'n buddsoddi yn y cwmni arfau Israelaidd, Elbit Systems Cyf.

Meddai aelod o'r Côr, Wendy Lewis: *Cafodd dronau eu defnyddio'n helaeth yn Gasa yn erbyn poblogaeth sifil ddiamddiffyn. Mae gwaed mwy na 400 o blant a laddwyd yn y bomio a fu ar Gasa ym mis Awst ar ddwylo Banc Barclays.*



Y tu fewn i'r banc, rhoddwyd llythyr yn cwyno i'r rheolwr, a chanodd y côr gân yn condemnio'r banc am ei gysylltiadau â'r fasnach arfau.

# CRYNODEB NEWYDDION CYMRU

## Peiriannau Lladd yn Llanbedr

**Mwy o dir ac awyrofod Cymru i gael ei ddefnyddio i ymarfer lladd, dyna oedd ymateb Cymdeithas y Cymod i'r newyddion bod Maes Awyr Llanbedr (ger Harlech) bellach ar agor yn swyddogol at ddefnydd dronau milwrol.**

Yn sgîl cyhoeddiad Qinetiq a Maes Awyr Llanbedr bod y maes awyr *ar agor am fusnes, ar gyfer profion hedfan Systemau Awyrennau â Pheilot Pellennig (dronau)*, galwodd Cymdeithas y Cymod brotestiadau yn Llanbedr a Pharc Aberporth.

Clymwyd ffotograffau o rai a laddwyd gan ddronau ar ffens amgylchynol Llanbedr. Ym Mharc Aberporth, daliai protestwyr ffug gerrig beddi yn dwyn enwau dioddefwyr cyrchoedd dronau.

Dywedir y bydd y dronau'n cyrraedd Llanbedr yn 2015 ar ôl cyfnod 90-diwrnod a fydd yn sefydlu 'awyrorfod ar-wahân' yn cysylltu Llanbedr a Pharc Aberporth.

*Rydym yn poeni bod Cymru'n cael ei defnyddio fwyfwy fel maes ymarfer ar gyfer lladd* meddai Anna Jane o Gaernarfon, ... *gydag Epynt, Fali, Aberporth ac yn awr Llanbedr, bydd enw Cymru'n cael ei gysylltu â maes hyfforddi dwys ar gyfer technegau lladd.*

### hedd>weithredu:

Da chi, ymunwch â'r Ymgyrch i Atal Dronau Llanbedr! Mae angen pobl i ddosbarthu taflenni o ddrws i ddrws ac eraill yng Ngwynedd i chwarae rhan yn yr ymdrech i atal y gwarth yma. Anna Jane Caernarfon: 0790 154 5114
Awel Irene: 0786 7790 971

## Gwlân nid Arfau

**Ar ôl nifer o 'gyrddau gweu' ar hyd a lled y wlad – yn Nhrefyclo, Gumfreston, Aberystwyth, Machynlleth, Eisteddfod Llanelli a Llandeilo – a gweddill y byd, dadroliwyd 7 milltir o Sgarff Heddwch wlân binc ar Awst 9fed (Dydd Nagasaki) gan wehyddion Gwlân yn erbyn Arfau.**




Gwnaed hynny rhwng SAA Aldermaston ac SAA Burghfield gyda'r nod o dynnu sylw at fwriad y llywodraeth i wario £100bn a mwy ar adnewyddu Trident.

Defnyddiwyd rhan o'r sgarff yn ddiweddarach yn Drapia'r Dronau yn Aberporth. Ar ôl gweithred bellach yn Llundain ym mis Ionawr 2015, caiff y sgarff ei datgymalu a'i throi'n flancedi ar gyfer cymorth dyngarol. Gwyliwch y digwyddiad yn Nhrefyclo ar http://tinyurl.com/orbeun5

## Cerddi dros Heddwch

**Mewn digwyddiad stryd gwych, darllenodd beirdd, yn cynnwys Julie Pritchard, Tim Richards, Des Mannay, Patsy Lingley, Jack Collins, Patrick Widdess, Katy Beddoe, Rosie Gleeson a Sue Hamblen, a darllenwyr eu gwaith eu hunain a cherddi rhyfel a heddwch clasurol yng nghanolfan siopa Caerdydd ar Ddydd Sul y Cofio.**

Meddai'r trefnydd, Adam Johannes: *Cofiwn am 'filwyr y gaeaf' a groesodd afon o dân, o ufuddhau'n ddigwestiwn i orchmynion i fod yn rym o blaid newid cymdeithasol – milwyr cydwybod fel y bardd Siegfried Sassoon a hyrddiodd ei fedalau i mewn i Afon Mersi fel protest yn erbyn y Rhyfel Byd Cyntaf, a Joe Glenton, y milwr Prydeinig cyntaf i fynd i'r carchar yn hytrach na dychwelyd i Afghanistan.*

*Aeth canrif heibio bellach ers gynnau agoriadol y Rhyfel Byd Cyntaf, y ryfel a oedd i fod i ddiweddu pob rhyfel. Heddiw, mae'n rhyfel eto, ac mae'r bomiau a ollyngir gennym ar wledydd pellennig yn ffrwydro yn ein cymdeithas ein hunain, gyda hiliaeth ac islamoffobia cynyddol, a choelcerth o'n hawliau sifil.*

### hedd>weithredu:

i ymuno â digwyddiadau tebyg yn y dyfodol yng Nghaerdydd, cysyllter ag Adam Johannes: thomas_muntzer_cardiff@hotmail.co.uk a gwler hefyd y dudalen facebook *No Glory in War - a Poetry Protest*

## PŴER NIWCLEAR

# Wylfa: Newyddion gan PAWB *(Pobl Atal Wylfa B)*



Cymdeithas yr Iaith Cymraeg

**Mae PAWB yn falch o fod wedi cydweithio'n hapus efo CND Cymru ers amser maith, ac yn edrych ymlaen at amser pan na fydd yn rhaid i wneud hynny – gan y bydd ein hamcanion wedi eu gwireddu! Yn anffodus mae'n annhebyg y digwydd hynny'n fuan.**

Mae adroddiad (dudalen 10 ac 11) yn disgrifio taith y Groes Werdd i Siapan. Dr Carl Clowes oedd cynrychiolydd PAWB, ac ef a drefnodd y 'criw Cymreig' ar y daith – sef Brian o CND, Malcolm o Greenpeace a Selwyn o Gymdeithas yr Iaith. Dyma ail ymweliad Carl â Siapan – llynedd aeth yno gyda'i fab Cian Ciaran (Super Furries). Mae enbydrwydd y sefyllfa yn ardal Fukushima wedi creu argraff ddofn arno ef a'r lleill.

Sut y gall Hitachi, perchnogion cwmni Horizon sydd eisiau adeiladu Wylfa B, gyfiawnhau dod a'u technoleg i Fôn, pan oeddan nhw'n rhan o ddylunio Fukushima? Ac, ymhellach, fod Siapan wedi gwahardd adeiladu rhagor o orsafoedd niwclear?

Mae Horizon ar hyn o bryd yn cynnal 'ymgynghoriad' lle mae nhw'n honni eu bod eisiau barn y cyhoedd am eu cynlluniau. Pan ofynnodd aelodau PAWB ble 'roedd y gwastraff i'w gadw, niwlog iawn oedd yr atebion. Ffug-ymgynghoriad yw hwn. Mae'n un statudol, felly rhaid ei gynnal, ond 'does dim rhaid i'r cwmni gymryd unrhyw sylw o'r farn leol os rhoddant resymau am hynny. Ffaith a gyfaddefodd Alan Rayment, Prif Weithredwr Horizon, mewn cyfarfod o Gynhadledd y Blaid Lafur rai blynyddoedd yn ôl. Serch hynny, deallwn fod rhai o ardalwyr Cemaes yn dechrau sylweddoli effaith mor anferthol gaiff yr atomfa arnynt.

Cafwyd un digwyddiad doniol pan aeth criw o Gymdeithas yr Iaith, a minnau yn eu plith, i'r ymgynghoriad yng Nghaernarfon. Gan mai dydd Calan Gaeaf oedd hwnnw, beth well na mynd yno fel zombis?! Braf dweud nad oedd gan staff Horizon ddim syniad sut i ymateb, na'r ddau blisman clên oedd yno chwaith! Cawsant wybod faint sydd yna tan y Sul gan Selwyn a roddodd hanes ymweliad Fukushima iddynt. Mae'r syrcas wedi ei chofnodi ar YouTube – http://tinyurl.com/ptf85v9 (eich gohebydd sydd yn y wig pinc!).

Erbyn i chi ddarllen hwn bydd Jonathon Porritt wedi bod ym Mhorthaethwy ar 19eg Tachwedd ar wahoddiad PAWB yn rhoi sgwrs ar y testun 'The Energy Revolution Coming Your Way – And It's Not Nuclear!' Mae PAWB yn hynod falch fod person mor amlwg yn y mudiad gwyrdd yn fodlon ein cefnogi. Gobeithiwn agor meddyliau a fu'n gaeëdig hyd yn hyn.

Mae un cwmwl newydd ymddangos ar y gorwel. Mae PAWB newydd ddarganfod fod cyfarfod wedi ei gynnal ym Mangor yn ddiweddar pryd y trafodwyd y syniad o 'Adweithydd Modiwlar Bychan' wedi ei leoli yn Nhrawsfynydd.

Mae'r syniad yma yn dangos pa mor wan yw Llywodraeth Cymru a'n cynrychiolwyr gwleidyddol lleol. 'Roedd nifer o'r niwc-gefnogwyr lleol yno, megis John Idris Jones, Pennaeth Ynys Ynni. Credwn bellach y dylai PAWB ymestyn cylch ei weithgarwch, a bwriedir trafod y mater gyda cyfeillion o Drawsfynydd.

***Robat Idris***

## hedd>weithredu:

Cadwch mewn cysylltiad â'r ymgyrch os gwelwch yn dda. Byddwch yn siwr i roi gwybod i'ch ACau, ASau a darpar-ASau sut rydych yn teimlo – peidiwch â gadael iddyn nhw feddwl nad oes neb yn gofalu digon i gysylltu â nhw ar y mater! Gweler www.stop-wylfa.org a thudalen facebook: *Stopiwch Wylfa - Dim Niwclear yng Nghymru*

# Fukushima dair blynedd a

**Ym mis Hydref, roedd *Is-gadeirydd CND Cymru Brian Jones* yn rhan o Daith Astudio'r Groes Werdd i weld canlyniadau damwain niwclear Fukushima ar yr 11eg o Fawrth 2011, ynghyd â thri chynrychiolydd arall o Gymru: Dr Carl Clowes (PAWB), Selwyn Jones (Cymdeithas yr Iaith) a Malcolm Carroll (Greenpeace Cymru). Ymwelodd y grŵp o 34 o bobl o 13 o wahanol wledydd, yn cynnwys ASE o Loegr, AS o Ganada, Cynghorydd Cenedlaethol o'r Swistir a 6 gohebydd, â Tomioka, Koriyama a Dinas Fukushima (10 km, 55 km a 70 km o safle'r drychineb).**
***Dyma hanes ei ymweliad:***

Mae Tomioka, treflan o 16,000 o bobl gynt, bellach yn dref anghyfannedd. Yma, gellir gweld effeithiau'r tswnami yn glir, gan na chyffyrddwyd â llawer o'r dref ers i'r tswnami ei tharo. Cafodd pobl eu symud oddi yno ar y 12fed o Fawrth 2010 ac fe'i dynodwyd yn rhan o Ardal Lygredig 2, lle *gohiriwyd y paratoadau ar gyfer ailymgartrefu, ond y bwriad yw dileu'r gwaharddiadau yn y tymor hir*.

Amcangyfrifir mai'r ddos ymbelydrol flynyddol yn ardal lygredig 2 yw rhwng 20 and 50 millisievert (mSv) – cyn y ddamwain, lefel ymbelydredd ddiogel swyddogol Japan oedd 1mSv y flwyddyn; ers hynny, cafodd hynny ei gynyddu *dros-dro* i 20 mSv y flwyddyn. Caiff cyn-drigolion ymweld â'u cartrefi yn ystod y dydd, ond ni chânt aros dros nos.

Amcangyfrifir bod yr ymbelydredd yn Ardal Lygredig 3, sy'n cynnwys yr adweithydd, yn fwy na 50mSv flwyddyn – bydd yn dal *i fod yn ardal waharddedig nes clywir yn amgen* sydd, o drosi geiriau'r llywodraeth, yn golygu *am gan mlynedd o leiaf*.

Cawsom siarad â ffoaduriaid o Tomioka a oedd wedi cael llety ar safle tai parod dros-dro ar gyfer 550 o deuluoedd yn Koriyama. Sonient yn deimladwy am adael eu cartrefi ers pedair cenhedlaeth, gan ddweud nad oeddent am ddychwelyd *am nad ydw i eisiau byw yn rhywle lle na all fy wyrion ymweld*; roedd y rhan fwyaf o'r ddirprwyaeth yn agos at ddagrau wrth glywed sut mae'r drychineb wedi effeithio ar bobl gyffredin, ac yn dal i wneud. Er i bawb ond 18 o'r trigolion oroesi'r tswnami, diolch i gynllun dianc tswnami Tomioka, bu mwy na 300 o farwolaethau 'yn gysylltiedig â'r drychineb' (trwy hunanladdiad, strôc, ac ati, hen bobl yn bennaf – mae'n rhy fuan i gynnwys marwolaethau o gancr a achoswyd gan y ddamwain) ymhlith cyn-drigolion Tomioka ers cael eu symud o'r dref. Ar ben arall y sbectrwm oedran, mae cyfraddau cancr y thyroid mewn plentyndod ryw 150 gwaith yn uwch na'r lefel cyn y ddamwain.

Efallai mai'r peth mwyaf ysgytwol, a bwrw mai Japan yw un o wledydd mwyaf cyfoethog ac uwch-dechnolegol y byd,



*Criw Cymreig: Malcolm Carroll, Selwyn Jones, Brian Jones & Carl Clowes*

## FUKUSHIMA
# hanner wedi'r ddamwain

*Caiff pridd ei ddadlygru trwy ei rofio i mewn i sachau duon*



yw'r ffaith eu bod mewn llawer ffordd yn dal i weithredu fel 'diffoddwyr tân'. Ymddengys mai'r brif flaenoriaeth yw ceisio sicrhau na fydd pethau'n gwaethygu: er eu bod *bron â gorffen* tynnu rhodenni tanwydd o adweithydd 4, mae gan rannau o adweithyddion 1,2 a 3 lefelau ymbelydredd mor uchel fel na fu neb ar eu cyfyl ers y ddamwain; dim ond yn awr y dechreuwyd astudio'r posibilrwydd o anfon robotiaid wedi eu rheoli o bell i mewn i gasglu gwybodaeth ynglŷn â gwir gyflwr yr adweithyddion hyn. Pan ofynwyd pryd y byddai'r gwaith o dynnu'r holl rodenni tanwydd o'r adweithyddion wedi ei gwblhau, yr ateb oedd *ymhen 30 mlynedd efallai.*

Caiff pridd ei *ddadlygru* trwy ei rofio i mewn i sachau duon, pentyrru'r rheini ynghyd, eu gorchuddio â phlastig, a gadael i'r ymbelydredd wanhau dros amser. Mae llwyth anferth o bridd ymbelydrol yn union y tu ôl i'r morglawdd, y llifodd y tswnami drosto. Cludir pridd newydd *o rywle arall* i gymryd lle'r pridd a symudwyd.

## hedd>weithredu:

Mae'r pedwar o Gymru a gymerodd ran yn y daith hon yn fodlon siarad yn fwy manwl gyda grwpiau.
Os hoffech i un ohonynt ddod i siarad â'ch grŵp chi, cysylltwch â Brian Jones
e: brian.jones@phonecoop.coop
t: 01792 830 330

*Mae adeilad a ddifrodwyd gan y tswnami*






# Dweud NA wrth NATO yng Nghasnewydd

**Mae grwpiau ac unigolion gwrth-NATO o Gymru, Prydain ac o bedwar ban yn haeddu eu llongyfarch.**
Wedi misoedd o gynllunio a threfnu, cynhaliwyd amrywiaeth ysblennydd o brotestiadau cyn ac yn ystod Uwchgynhadledd NATO, a gynhaliwyd yng ngwesty'r Celtic Manor ger Casnewydd.

Roedd y protestiadau'n cynnwys gwrthdystiadau, cerddoriaeth a cherddi, gweithredu uniongyrchol a diprwyaeth i'r Uwchgynhadledd gyda negeseuon heddwch a diarfogi oddi wrth bobl gyffredin. Cynhaliwyd gwrth-Uwchgynadleddau yng Nghasnewydd a Chaerdydd.

O fewn y ffensys 'diogelwch', roedd cytundebau'r Uwchgynhadledd yn iasoer, wrth i'r arweinwyr gytuno ar gynllun 'ymateb chwim' yn wyneb y sefyllfa yn Wcráin, galw am hyd yn oed yn fwy o wariant milwrol, a chymeradwyo cadw 10,000 o luoedd NATO yn Afghanistan hyd yn oed wedi'r 'enciliad' swyddogol.




Galwodd y ddwy wrth-Uwchgynhadledd ardderchog am ddiddymu NATO a gosod yn ei le system o wir gyd-ddiogelwch torfol (nid militariaeth neu fwlio rhyngwladol) a diarfogi.

Cytunwyd y dylai'r mudiad heddwch rhyngwladol barhau i brotestio yn erbyn polisi NATO o gyfwynebu, militareiddio ac ehangu pellach.

## hedd>weithredu:

Diolch i bawb a drefnodd ddigwyddiadau Na i NATO a chymryd rhan. Cafodd grŵp CND newydd ei sefydlu yng Nghasnewydd, gwybodaeth gan John Minnion t: 01633 211 368. I gadw mewn cysylltiad â digwyddiadau gwrth-NATO, gweler 3 tudalennau facebook
*NA i NATO Casnewydd*
*NA i NATO Caerdydd*
*Na i Ryfel – Na i NATO*

# NA WRTH NATO

## NA wrth NATO

**Meddai Is-gadeirydd CND Cymru, Ray Davies:**

Wrth i ddiwrnod Uwchgynhadledd NATO nesáu, disgynnodd y Marchoglu Cartref, yr awyrlu, yr heddlu a'r gangen arbennig ar Gasnewydd. Roedd i fod yn ddiwrnod o hwyl i'r teulu, gydag arddangosiadau o arfau llofruddiol a pheiriannau angau NATO, ffair fwyd â thema NATO, ac arddangosiad hedfan. Ond roedd Côr Cochion, CND Cymru, Ymgyrch Cefnogi Palesteina ac ymgyrchoedd Atal NATO/NA i NATO Casnewydd yno, yn galw am fuddsoddi'r arian a werir ar ryfeloedd diderfyn yn ein gwasanaeth iechyd, ein hysgolion a swyddi....

Aeth y seindorf filwrol heibio, a dyma ninnau'n eu dilyn draw at LanyrAfon lle'r oedd y pwysigion yn cael derbyniad, i weld golygfa gwbl grotésg, sef plant yn cael eu codi i fyny ar danciau'r fyddin ac yn anelu gynnau peiriant. "Os na lwyddwn ni i atal rhyfeloedd NATO, y plant hyn fydd yn porthi gynnau mawr y rhyfel nesaf" medden ninnau, gan sefyll yn ymyl y tanc â'n posteri, rhoi sticer heddwch ar ei flaen, a pharhau i ganu'n caneuon heddwch tra bod y seindorf yn chwarae'r gymysgedd ryfeddaf o ganeuon Abba ac ymdeithganau.

Roedd yr heddlu'n bygwth ein symud, ond daliasom ein tir.




## Na I NATO, Na I Barclays

**Roedd D Murphy o Abertawe yn un o 4 o brotestwyr a'u gludodd eu hunain â glud cryf i ddesg ym Manc Barclays yng Nghasnewydd ym mis Medi fel rhan o ymgyrch i geisio darbwyllo Barclays i beidio â buddsoddi yng nghwmni milwrol mwyaf Israel, Elbit Systems Cyf. Ym mis Tachwedd, fe'u cafwyd yn ddieuog o dresmasu.**

Yn ystod y weithred, gorweddodd grŵp o brotestwyr wedi eu gorchuddio â gwaed ffug ar lawr, a chafodd taflenni protest eu dosbarthu.


Dywedodd y Bwrnwr, gan fod y protestwyr wedi eu gludo wrth y ddesg cyn i'r heddlu ofyn iddyn nhw adael, na allent ufuddhau.

Meddai D Murphy: *Mae'n dangos y caniateir protestio heddychlon yn y wlad o hyd. Byddwn yn annog eraill, sy'n teimlo'n gryf am rywbeth, i weithredu'n uniongyrchol.*

Yn ôl y CU, ym misoedd Gorffennaf ac Awst 2014, lladdwyd o leiaf 2,104 o Balestiniaid wrth i Israel ymosod ar lain Gasa yn ystod 'Operation Protective Edge'.

Amddiffynodd llefarydd ar ran Banc Barclays y ffaith bod Barclays yn buddsoddi yn Elbit, gan mai *nifer fach iawn* o gyfranddaliadau oedd gandynt.

Cafodd y dronau Watchkeeper (a ddefnyddir gan Lu Amddiffyn Israel o dan yr enw Hermes 450) sy'n cael eu 'profi' ym Mharc Aberporth eu dylunio a'u gwerthu i'r WA gan Elbit Systems Cyf.





# Eisteddfota 2014

**Cafodd CND Cymru wythnos lwyddiannus yn y Babell Heddwch yn Steddfod Llanelli eleni.**

Canolbwynt y gwaith gweu a gweithredoedd ynghlwm wrth Gwlân yn erbyn Arfau trwy'r wythnos oedd y Babell Heddwch. Arddangoswyd y sgarff ar draws y Maes ar Ddydd Hiroshima. Y stondin hefyd oedd man cychwyn y Daith Faith i NATO ar ddiwedd yr wythnos.

Yn ychwanegol at y digwyddiadau hyn, casglwyd enwau ar y ddeiseb Dim Olynydd i Trident, dosbarthwyd gwybodaeth, cafwyd sgyrsiau gydag ymwelwyr a chodwyd arian trwy werthu bathodynnau, sticeri ceir, cardiau post, gemwaith a nwyddau masnach deg.

Gwirfoddololodd grwpiau i ofalu am y stondin am ddiwrnod yr un. Fe weithiodd hyn y dda iawn, a charem ddiolch i Mari James am ei menter, ac i Llinos, Jen, Mari, Pat, Enid, Dafydd, Gill, a Branwen a fu oll yn helpu yn ystod yr wythnos.

## hedd>weithredu:

Os carai eich grŵp, neu chi a'ch ffrindiau wirfoddoli ar gyfer stondin CND Cymru yn Steddfod Meifod yn 2015, yna da chi, cysylltwch â Brian Jones: swanseacnd@phonecoop.coop




# Gorffennol a Dyfodol Heddwch

**Mae Cronfa Materion Rhyngwladol Cymru wedi derbyn grant gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri tuag at broject newydd, Cymru dros Heddwch/Wales for Peace.**

Bydd y project pedair-blynedd hwn yn archwilio sut mae Cymru, yn y can mlynedd ers y Rhyfel Byd Cyntaf, wedi cyfrannu at geisio heddwch.

Y nod yw cael 100,000 o bobl i gyfranogi mewn darganfod, rhannu a dysgu o dreftadaeth heddwch Cymru, a'r bobl a'r sefydliadau hynny y mae eu straeon yn dal heb eu hadrodd, i raddau helaeth. Cysylltir yr hanes wedyn â gwrthdrawiadau heddiw a barn gyfoes ynglŷn â sut i sicrhau heddwch.

Bydd cyfleoedd i unigolion a chymunedau gyfranogi mewn digwyddiadau rhyngweithiol, cyfleoedd i wirfoddoli, a chyfle i bawb rannu straeon teuluol neu gymunedol am heddwch.

## hedd>weithredu:

I gymryd rhan,
t: 029 2022 8549
e: centre@wcia.org.uk neu gweler www.wcia.org.uk/walesforpeace_cy.html

# Cloi Clwydi Burghfield – Atal Trident

*Dydd Llun 2il o Fawrth 2015, cychwyn am 7am yn SAA Burghfield*

**Gwahoddir pawb i warchae torfol di-drais ar y ddwy glwyd i SAA Burghfield er mwyn tarfu'n heddychlon ond yn effeithlon ar y gwaith o adeiladu arfau niwclear, a thorri ar draws y paratoadau ar gyfer olynydd i Trident.** Bydd Cloi Clwydi Burghfield yn digwydd ar ddechrau mis o weithredu yn y Sefydlaiadau Arfau Atomig, o'r enw 'Gweithredu, Siarad, Pleidleisio = Diarfogi!' ac mae'n gyfle i ni osod diarfogi yn uchel ar yr agenda wleidyddol ar gyfer etholiad cyffredinol Mai 2015.

Gwariwyd biliynau eisoes ar uwchraddio SAA Burghfield gan achub y blaen ar benderfyniad y Senedd ynglŷn ag olynydd i Trident yn 2015.

Mae SAA Burghfield yn gweithio ochr yn ochr â SAA Aldermaston (dim ond 7 milltir sydd rhyngddynt) i adeiladu a chynnal a chadw'r ergydion niwclear a ddefnyddir ar longau tanfor Trident. Bydd ein hymgyrch Cloi'r Clwydi yn mynnu bod y cynlluniau ar gyfer olynydd i Trident yn cael eu diddymu ac yn galw am waharddiad byd-eang ar arfau niwclear.

Bydd gan Action AWE ganolfan ymgynnull a gall gynnig cefnogaeth cyn y weithred gyda ffurfio grwpiau cefnogol a hyfforddi mewn gweithredu uniongyrchol di-drais.

### hedd>weithredu:

e: info@actionawe.org,
mobilise@actionawe.org
cysyllter ag Angie
t: 01547 520 929
www.actionawe.org/BurghfieldLockdown
Pecyn hysbysu ar gael cyn hir.




# Achos gerbron Llys y Byd

**Ym mis Ebrill, gosododd Gweriniaeth Ynysoedd Marshall (GYM) naw cais gerbron y Llys Cyfiawnder Rhyngwladol, sef Llys y Byd, yn Yr Hâg.**
Y cyhuddiad yw bod y naw gwladwriaeth sydd ag arfau niwclear wedi methu cyflawni eu hymrwymiadau o dan y Cytundeb Atal Ymlediad Niwclear (CAY) a'r gyfraith ryngwladol, sef bwrw ati i negydu'n ddiffuant tuag at y nod o ddileu arfau niwclear o'r holl fyd.

Mae'r achos yn erbyn arfau niwclear Prydain yn sicr yn un cryf. Mae'r CAY yn sôn am weithredu 'yn fuan' ac mae'r Llys wedi pwysleisio y dylid dwyn y negydu i ben. Arwyddwyd y CAY bron hanner canrif yn ôl, ond does nemor ddim arwydd bod y llywodraeth Brydeinig yn ceisio cyflawni'r ymrwymiad 'â phob cyflymder bwriadol' fel sy'n ofynnol gydag unrhyw gytundeb difrifddwys.

At hynny, mae cwestiwn olynydd i Trident yn awgrymu bwriad i ddal gafael ar yr arfau niwclear hyn tan ganol y ganrif, o leiaf.

### hedd>weithredu:

Mae hwn yn ddatblygiad tyngedfennol yn hanes Project Llys y Byd, a gellwch chithau helpu (am fwy o awgrymiadau gweithredu, gweler www.peacebourne.webplus.net

1. Arwyddwch y ddeiseb i arweinwyr y byd yn http://nuclearzero.org/learn lle gellwch ddysgu mwy am yr achos hefyd
2. Anfonwch air i longyfarch Arlywydd Ynysoedd Marshall, Christopher Loeak, a danfon cardiau Nadolig: Yr Arlywydd Loek, Swyddfa'r Arlywydd, P.O. Box 2, Majuro, MH 96960, Marshall Islands;
e: rmiop.press@gmail.com
3. Sgrifennwch at eich AS gan ddarparu'r wybodaeth uchod gan ofyn iddo/iddi anfon hyn ymlaen at y Swyddfa Dramor am sylwadau. A fyddech cystal â chopïo unrhyw atebion i George Farebrother
geowcpuk@gn.apc.org

# ADOLYGIADAU

## Gwrthwynebwyr Cydwybodol yng Ngheredigion yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf

*Michael Freeman*

**Er i'r rhan fwyaf o ddogfennau'r Tribiwnlysoedd Gwasanaeth Milwrol Lleol a Sirol, wedi gorfodaeth filwrol ym 1916, gael eu dinistrio ledled Prydain, mae rhai Sir Aberteifi wedi goroesi.** Mae'n golygu bod hanes Gwrthwynebiad Cydwybodol yno wedi ei ddogfennu'n fwy manwl nag yn unlle arall. Mae'r Papur Cefndir CND Cymru



PAPUR CEFNDIR CND CYMRU: 6

"*Ni allaf ddwyn arfau*
O ACHOS FY NGHYDWYBOD;
*ac ni allaf wneud*
DIM
*i*
LADD BOD DYNOL."

JOSHUA DAVIES, PENLANLAS, TALSARN

GWRTHWYNEBWYR CYDWYBODOL YN SIR GEREDIGION YN YSTOD Y RHYFEL BYD CYNTAF
MICHAEL FREEMAN

44-tudalen dwyieithog hwn (rhif 6) yn adrodd sut y gwnaeth o leiaf 30 o ddynion yng Ngheredigion apelio at y Tribiwnlysoedd Gwasanaeth Milwrol Lleol a Sirol hyn i gael eu heithrio rhag gwasanaethu fel ymladdwyr, ar dir cydwybod.

Mae'r straeon yn bersonol, yn arddangos dewrder mawr a thrasiedi hefyd mewn mannau.

Maent wrth reswm yn cynnwys agweddau ar wleidyddiaeth leol a Chymreig yr oes. Ar un adeg, drwgybiwyd y diarhebol T.E.Nicholas (Niclas y Glais), radical a gwrthwynebydd awdurdod a oedd yn byw yn y sir ar y pryd, o chwarae rhan yn apeliadau pedwar gwrthwynebydd cydwybodol yn Llangybi. Mae'r papur cefndir hefyd yn trafod – ac mewn rhannau yn darlunio – posteri recriwtio dwyieithog y cyfnod




sy'n gwyrdroi'r defnydd o'r iaith Gymraeg yn gynnil, i'w dibenion eu hunain.

Papur cefndir CND Cymru diddorol dros ben.

***Oddi wrth CND Cymru, d/o Llys Blodau, Bryn Briallu, Llanbadarn Fawr, Aberystwyth SY23 3SE, £5 yn cynnwys cludiant. Sieciau'n daladwy i 'CND Cymru'.***

---

## When Men Refuse to Fight


### Writings on Peace and Conscientious Objection

### *Detholwyd gan Derek a Carol Williams*

Casgliad teimladwy, gwylaidd, ond llawn dop, yn cynnwys gohebiaeth ac eitemau o'r Oswestry & Border Counties Advertiser, datganiadau gan wrthwynebwyr cydwybodol a garcharwyd yn ogystal â cherddi a rhyddiaith gan eraill.

***Clymblaid Croesoswallt dros Heddwch***

***Oddi wrth: Oswestry Coalition for Peace, d/o 54, Whitefriars, Croesoswallt, Swydd Amwythig SY11 2LW t: 01691 661 793 e:ocp2014@gmx.co.uk £3.60 yn cynnwys post***



# ADOLYGIADAU

## Here We Stand - Women Changing the World

### *Casglwyd a golygwyd gan Helena Earnshaw ac Angharad Penrhyn Jones*

**Defnyddir cyfweliadau ac erthyglau i bortreadu credoau a gweithredoedd 17 o ymgyrchwyr benywaidd cyfoes.**

Mae'n siwr y gall pob un o'r darllenwyr enwi rhagor o fenywod a fyddai'n perthyn i'r categori o bobl sy'n byw a/neu'n gweithredu 'yn unol â'u credoau dyfnaf'. Mae'r rhai a ddewiswyd gan y golygyddion yn cynnwys rhai mwy cyfarwydd i ymgyrchwyr o Gymru, fel Angharad Tomos, Jo Wilding, Angie Zelter, a rhai enwau llai adnabyddus ond llawn mor ddewr fel yr ymgyrchydd llaeth babanod Anuradha Vittachi, y chwythwr chwiban cartrefi gofal, Eileen Chubb a'r gyfreithwraig hawliau sifil o'r UD, Shauneen Lambe.




Ddylai darllenwyr byth deimlo'n ddi-rym yn wyneb y straeon 'dyrchafol, ysgytwol a theimladwy' a adroddir gan y menywod hyn ond, yn hytrach, wedi eu hysbrydoli a'u hysgogi i weithredu.

*Honno ISBN: 9781909983021 £10.99*


## World in Chains

### Nuclear Weapons, Militarisation and their Impact on Society

### *Golygydd: Angie Zelter*

**Mae'r gyfres hon o ysgrifau gan wahanol gyfranwyr yn archwilio effaith arfau niwclear a militareiddio o safbwynt Prydain.**

Yn y bôn, mae'n cwestiynu gonestrwydd cymdeithas sy'n derbyn braw-ataliaeth niwclear fel ffurf ddilys o 'amddiffyn'. Gan danlinellu diffyg parch y llywodraeth Brydeinig at rai agweddau ar gyfraith ddyngarol ryngwladol, mae hefyd yn archwilio gonestrwydd cymdeithas sy'n gallu gweithredu yn dosturiol er budd cyhoeddus ehangach, ond nad yw'n gallu ethol llywodraeth sy'n fodlon gweithio i sicrhau gwaharddiad byd-eang ar arfau niwclear.




Yn eu crynswth, mae'r cyfraniadau'n archwiliad o'r meddylfryd militaraidd sy'n tra-arglwyddiaethu yn y rhan fwyaf o gymdeithasau ar hyn o bryd fel achos llawer o broblemau trychinebus y byd.

Gellid dychmygu y byddai Henry Richard AS, Apostol Heddwch, wedi cael y gyfrol yn un ddefnyddiol a chyffrous – ond byddai'n drist i weld cyn lleied o'r ffordd yr ydym wedi ei theithio tuag at weithredu cyflafareddiad rhyngwladol.

*Luath Press ISBN 9781910021033 £12.99*

---

## Love and Fallout *Kathryn Simmonds*

**Peth dewr yw hi i unrhyw un sgrifennu nofel yn cyfeirio at brofiadau'r gorffennol yng Nghomin Greenham.**

Mae gennym oll atgofion a chanfyddiadau personol o'r hyn a ddigwyddodd ar y pryd. Ac eto, dyna ddewisodd Kathryn Simmonds ei wneud yn Love and Fallout. Mae'n stori am beth a fu a beth a ddigwyddodd i un fenyw a 'ddaeth i oed' yn Greenham. Mae'r nofel ynglŷn â 'chyfeillgarwch, bod yn fam, a'r damweiniau sy'n ein gwneud yr hyn ydym', gan fyfyrio ar y daith a wnaeth i nifer ohonom ni fenywod fynd yn un o 'Fenywod Greenham ym Mhob Man'. Bydd rhai yn ei fwynhau'n fawr – mae'n ddiddorol sut yr aethom yn hanes ac, ar yr un pryd, yn ddifyrrwch.

Cyhyd â bod ein neges yn parhau a'r Ysbryd yn ddiogel, dyma dipyn ddarllen ysgafn gwerthchweil dros y Nadolig, efallai?

*Seren ISBN 9781781721469 £8.99*




## ADOLYGIADAU

# Caneuon Heddwch - i gofio... 'y rhwyg o golli'r hogia'

**Cyhoeddwyd y casgliad hwn o 19 o ganeuon Cymraeg, a gynhwyswyd ar recordiau blaenorol o 'ganeuon heddwch' gan Sain, i goffáu trasiedi Rhyfel 1914-1918.**

Mae'r CD yn gasgliad o ymatebion gwahanol ganwyr-gyfansoddwyr a beirdd i erchylltra a thristwch pob rhyfel.




Er bod yr alawon yn aml yn bersain, nid yw'r geiriau'n delfrydu rhyfel, ond yn disgrifio dewrder a thrasiedi'r milwr, y dioddefwr a'r gwrthwynebydd cydwybodol unigol.

Mae cydganu teimladwy'r corau yn cyfleu teimladau pwerus cerdd Waldo, *Y Tangnefeddwyr*, ac englynion coffa R. Williams Parry i Hedd Wyn, y bardd a laddwyd yn y rhyfel.

O'r corau i ganeuon Meic Stevens, Twm Morys, Dafydd Iwan a'r gweddill, hyd at y Benedictus o Offeren Heddwch Karl Jenkins, clywir gwir hanes rhyfel yma, boed o enau 'gwrthgiliwr', disgrifiad gan ddyn a welodd ei gyfaill yn cael ei chwythu i fyny yn Irac, neu'r gân am un o ddioddefwyr y gwrthdaro yng Ngogledd Iwerddon.

***Mae 'Caneuon Heddwch' ar gael o siopau llyfrau Cymraeg, i'w lawrlwytho o itunes neu i'w archebu o www.sainwales.com e:ellen@sainwales.com t: 01286 831 111***

# Lleisiau Cydwybod / Voices of Conscience

**Daw'r ffilmiau byrion yma o brofiadau personol o ryfel, gwrthwynebiad cydwybodol a chreu heddwch â ffotograffau a darluniau cyfoes yn gydymaith iddynt.**

Mae llawer o'r broses o ailadrodd hanes y Rhyfel Byd Cyntaf wedi canolbwyntio ar y niferoedd ofnadwy a laddwyd ac a glwyfwyd, ac ar brofiad milwyr.

Mae'r ffilmiau teimladwy hyn yn gyfle i bobl gyffredin adrodd eu straeon personol, hanes y rheini a wnaeth safiad yn erbyn rhyfel ar sail cydwybod. Mae pob un o'r chwe ffilm yn para llai na phum munud, a gellir eu gwylio ar wahân neu fel cyfres, yn Gymraeg neu yn Saesneg.

Mae'r DVD, sy'n addas at bob oed, yn ddelfrydol ar gyfer Cyfnodau Allweddol 2 neu 3 mewn ysgolion, a darperir nodiadau athrawon.

Project gan Gwrdd Ardal De Cymru o Gymdeithas Grefyddol y Cyfeillion oedd recordio a chydgrynhoi'r straeon hyn.

***Ar gael ar-lein: http://tinyurl.com/netu78b ; fel DVD ynghyd â nodiadau; neu o www.breakingbarriers.org.uk (gellir lawrlwytho nodiadau). Cafodd pob ysgol yng Nghymru gopi am ddim. Copïau pellach £5. e: info@breakingbarriers.org.uk***

# Llythyr at y Golygydd

**Annwyl Gyfeillion,**

Rydym yn dwlu derbyn ***heddwch*** yma yng Nghanada, felly testun anesmwythyd oedd gweld y cyfweliad gyda Mike Hedges [Aelod Cynulliad Llafur] am arfau niwclear. Mae'n hawlio, ar gam, na fygythiwyd Fietnam ag arfau niwclear erioed (mewn gwirionedd, roedd y bygythiad i ollwng niwcs yn rhan o ddamcaniaeth 'gwallgofddyn' Nixon ac 'Wltimatwm Tachwedd"' 1969).

Yn wir, bygythiwyd defnyddio arfau niwclear cyn gynhared â 1946 gan Harry Truman, a defnyddiwyd y bygythiad lawer gwaith ers hynny, fel y dengys Joseph Gerson yn Empire and the Bomb: How the United States Uses Nuclear Weapons to Dominate the World (Pluto Press). Gwaeth byth, fodd bynnag, oedd y diweddglo, math o agwedd realpolitik tuag at armagedon niwclear.

Pam diweddaru Trident, gofynna Hedges, *pan nad oes yna unrhyw amgylchiadau lle gallem ddychmygu ei defnyddio neu fygwth ei defnyddio?* Mewn geiriau eraill, pe bai cyfle i'w ddefnyddio, gallai'r ddadl felly ddweud bod y buddsoddiad yn un gwerthchweil.

Onid gwell dweud, yn syml iawn, ei bod yn amhosibl amddiffyn y fath arfau, ar unrhyw sail o gwbl, a chau'r drws ar unrhyw beth tebyg i ddadl resymegol ynglŷn â rhywbeth na ddylai, fel ffyrnau nwy y Natsïaid, byth fod yn destun dadl yn y lle cyntaf?

Heddwch

***Matthew Behrens***
***Homes not Bombs***
Perth, Ontario, Canada

# Clywch, clywch!
## *System PA CND Cymru*

**Mae'r adnodd CND Cymru defnyddiol hwn ar gael ar gyfer siaradwyr neu gerddorion yn eich cyfarfod neu ddigwyddiad.**

Manylion Technegol:
PA 250 watt yn rhedeg ar fatri neu drydan allanol (bydd batri mewnol â gwefriad llawn yn para 8 awr). 2 feicroffon radio, 2 fewnbwn plygio i mewn Chwaraewr mewnol ar gyfer SD neu go' bach (ffeiliau mp3 ac wma).

Chi fydd y gyfrifol am gostau cludiant, ond mae'r PA'n ffitio'n hawdd i mewn i gist car a gobeithio, gyda chymorth ein ffrindiau ledled Cymru, y gallwn drefnu i'w gludo atoch.

Os gall eich grŵp fforddio cyfraniad tuag at y costau, croesewir hynny, ond peidiwch â phoeni os na ellwch, jest ewch ati â'ch syniadau ymgyrchu a lledaenu'r heddwch!
Y cwbl fydd rhaid i chi ei wneud wedyn yw gofalu amdano!
***Gellir bwcio'r system PA trwy gysylltu â***
David Watson m: 07837 764 646
e: maddavew1959@yahoo.co.uk



# CYSYLLTIADAU HEDDWCH

yw cylchgrawn yr **Ymgyrch Ddiarfogi Niwclear yng Nghymru** (CND Cymru)
**golygydd:**
Jill Gough
**cyfiethydd:**
Sian Edwards
sian@derwen.demon.co.uk
**cynhyrchu a phostio:**
Redkite Print
07810 566 919
redkiteprint@thefreeflyer.com

**Os oes gennych unrhyw ddyddiadau neu wybodaeth – neu sylwadau – i'w cynnwys yn y rhifyn nesaf, anfonwch nhw i heddwch@cndcymru.org**

**Cyhoeddir y rhifyn nesaf: Gwanwyn 2014.**

*Nid yw cynnwys **heddwch** o anghenraid yn adlewyrchu barn neu bolisïau CND Cymru. Rydym yn croesawu dadl a thrafodaeth.*
*Anfonwch unrhyw sylwadau neu gyfraniadau at y golygydd.*

# Papurau Cefndir CND Cymru

***Papurau cefndir eraill ar gael***

1. **Henry Richard AS**
2. **Chelsea Manning**
3. **Adar Angau dros Aberporth**
4. **Trident, Bom Prydain**
5. **Effeithiau Arfau Niwclear**

***Copïau ar gael trwy'r post. Am un copi, anfonwch amlen C5 (maint A5) â stamp a chyfeiriad arni at CND Cymru. Am bris niferoedd mwy, cysyllter ag CND Cymru:***
***t: 01239 851 188***
***e: heddwch@cndcymru.org***

# CND CYMRU

**Mae CND Cymru'n ymgyrchu ochr yn ochr â llu fudiadau eraill yng Nghymru a phedwar ban y byd i gael gwared o arfau dinistr torfol o Brydain a'r byd, a thros heddwch a chyfiawnder i bobl a'r amgylchedd.**

# CYSYLLTIADAU

**is-gaderyddion:**
John Cox
01495 773 495
drjohncox@aol.com

Brian Jones
01792 830 330
swanseacnd@btinternet.com

Duncan Rees
07774 268 371
Duncan.rees01@gmail.com

George Crabb
01446 774 452
georgecrabb@phonecoop.coop

Ray Davies
02920 889 514

**trysorydd, aelodaeth ac aelodau:**
CND Cymru
9 Primrose Hill,
Llanbadarn Fawr,
Aberystwyth SY23 3SE
michael.freeman9@btinternet.com

**masnachu:**
Kate and Del Rhys
coney@gn.apc.uk

**ysgrifenydd cenedlaethol:**
Jill Gough,
CND Cymru,
Llys Gwyn, Glynarthen,
Llandysul, SA44 6PS
01239 851 188
heddwch@cndcymru.org
www.cndcymru.org

**GWERTHFAWROGIAD**

# Lib Rowlands-Hughes

## *15th Medi 1918 - 2nd Tachwedd 2014*

**Bydd llawr ohonom ledled Cymru – a thu hwnt i'w ffiniau – wedi dod ar draws Lib Rowlands-Hughes mewn rhyw ffordd neu'i gilydd dros y blynyddoedd. Yn wir, mae adran CND Cymru o Archif Wleidyddol Cymru yn cynnwys blycheidiau o ddeunydd a ddanfonodd atom – yn cynnwys cartwnau, gwybodaeth a negeseuon, dros ddegawdau o ohebu. Daeth llawer o'r cartwnau yn y 62 rhifyn diwethaf o Heddwch o gasgliad Lib. Mae'r byd yn sicr yn wacach lle heb y fenyw anghyffredin hon.**

**Mae *Genny Bove* yn mynegi teimladau llawer ohonom ar ôl clywed yn ddiweddar am ei marwolaeth:**

Bu Elisabeth (Lib) Rowlands-Hughes, a fu farw yn ei chartref yn Llangollen yn 96 oed, yn ymgyrchu dros heddwch ar hyd ei hoes, ac roedd yn dal wrthi â'i sirioldeb a'i brwdfrydedd nodweddiadol tan ond ychydig wythnosau yn ôl. Nid fi yw'r unig un fydd yn gweld eisiau galwadau ffôn mynych Lib yn nodi pytiau o newyddion neu lythyr arbennig o dda yn y wasg, yr amlenni'n llawn toriadau o'r wasg, erthyglau wedi eu copïo â llaw neu wedi eu llungopïo, ynghyd ag ambell gartŵn gwych ac ambell gerdd neu gerdyn post gwleidyddol. Dwi'n credu i mi dderbyn o leiaf dri llythyr o'r fath yn y mis diwethaf; yn un ohonynt – pan oeddwn yn sâl, mae'n rhaid – mae Lib yn dweud wrthyf am 'fod yn ferch dda a chadw'n gynnes'!

Ganed Lib ar ddiwedd y Rhyfel Byd Cyntaf i deulu yn cynnwys pregethwyr dylanwadol a heddychwyr, ac fe'i magwyd yng nghysgod y drin ofnadwy a hawliodd fywydau cenhedlaeth gyfan o ddynion ifanc o bob dosbarth, yn cynnwys pedwar o'i hewythrod. Bu farw 100 mlynedd ar ôl iddo gychwyn. Doedd ganddi ddim amynedd o gwbl â mawrygu rhyfel, a ffieiddiai'r modd yr ecsploetiwyd y canmlwyddiant dwys hwn i ennyn brwdfrydedd




Genny Bove

# GWERTHFAWROGIAD

'gwladgarol' a chefnogaeth i ryfeloedd presennol, y bu'n eu gwrthwynebu tan y diwedd. Cofiai Lib yn iawn dreulio amser gyda'i cyfnitherod hŷn, y chwiorydd Davies yng Ngregynog, a chydag aelod arall o'r un teulu, yr heddychwr a'r ymgyrchydd heddwch amlwg, a'r AS dros Brifysgol Cymru, George M Ll Davies.

Yn aelod gweithgar o'r Undeb Llw Heddwch er ei harddegau diweddar, tyngodd Lib i "ymwrthod â rhyfel ... yn benderfynol i beidio â chefnogi unrhyw fath o ryfel ac ... i weithio o blaid dileu achosion rhyfel', a pharhaodd i wneud hynny ag ymroddiad trawiadol, ac yn ei ffordd unigryw, am y 75 mlynedd nesaf. Yn y 1950au, roedd yn rhan o'r mudiad a droes yn CND, a chanolbwynt llawer o'i gweithredu wedi hynny oedd materion niwclear. Ynghyd â'i chyfnither Gwen, roedd Lib yn aelod allweddol o'r grwpiau heddwch lleol a weithiai'n ddiflino yn eu bro ac ymuno ag eraill ledled y wlad i ymgyrchu dros fyd di-niwclear, mewn pob math o ffyrdd creadigol a dychymygus. Ym 1982, pan gyhoeddwyd Datganiad y Gymru Ddi-niwclear, aeth Gwen a Lib ar hyd priffyrdd ger y ffin a Lloegr i godi arwyddion yn dweud "You are now entering Nuclear Free Wales".

Byddai Lib yn ymwneud yn frwdfrydig ag unrhyw un o unrhyw gefndir a arddangosai feddwl agored, a thrwy hynny, gwnaeth ffrindiau o bob lliw a llun o bob rhan o Gymru a thu hwnt, ond roedd y rheini a gredai bod braint a phŵer yn bwysicach na synnwyr cyffredin a pharch at eraill yn dueddol o ddioddef effeithiau ei gweithredu diflino, o lythyron a galwadau ffôn i weithredu uniongyrchol anarchaidd.

Pan wrthododd pwyllgor ffroenuchel Eisteddfod Ryngwladol Llangollen roi stondin i'r grŵp heddwch am ei fod yn 'wleidyddol', cododd Lib a'i ffrindiau stondin mewn gardd gefn yn ffinio â maes yr Eisteddfod a denu ymwelwyr trwy fwlch yn y clawdd.




Dai Owen

Yn ystod ymgyrch Caseg Eira y 1980au, roedd Lib yn un o'r gweithredwyr a fanteisiodd ar y weithred symbolaidd o dorri ffensys sefydliadau niwclear fel Capenhurst i bwysleisio materion niwclear. Pan fyddai'r wladwriaeth yn ennill achosion ar gyhuddiadau o niwed troseddol, wedi i orchudd plastig gwifren un-edefyn gael ei dorri gan declyn fel siswrn torri ewinedd heb fin, yr enillwyr amlwg oedd y gweithredwyr gwrth-niwclear a ddaliodd sylw'r cyhoedd ledled Prydain yn sgîl yr achosion llys chwerthinllyd hyn.

Ddois i ddim i nabod Lib tan ar ôl hyn oll, yn negawd olaf ei bywyd. Cysylltodd Lib â mi, fel y byddai'n gwneud, wedi i lythyr gennyf gael ei argraffu yn y papur lleol; cafodd afael ar fy rhif a ffonio i gyflwyno'i hun. Dwi mor falch iddi wneud hynny. Roedd sgwrsio â Lib ar y ffôn neu pan ddigwyddwn ymweld â hi, yn addysg, ac roedd ei gallu i roi digwyddiadau cyfoes yn eu cyd-destun hanesyddol yn hynod werthfawr. A hwythau'n ymddiddori mewn ffosiliau ill dau, aeth Lib yn dipyn o ffrindiau â'm partner, Alan, hefyd. Fe ymwelsom â hi un prynhawn ar ôl bod am dro i fyny i Ddinas Brân lle'r oedd Alan wedi darganfod trilobit bychan. Fe'i tynnodd o'i boced i'w ddangos i Lib. Roedd hi wrth ei bodd â'r 'anrheg' anfwriadol, yn ei wasgu'n dynn gan ddweud 'O, Diolch! Diolch!' Doedd gennym mo'r galon i ofyn amdano yn ôl.

Byddwn yn gweld dy golli, Lib.

**Bwriedir Dathlu Bywyd Lib – i gael gwybod am y manylion, cysyllter ag CND Cymru. Cymru.**

# DYDDIADAU DYDDIADUR

**Bob dydd Gwener 12.30pm**
**CAERDYDD** y tu ôl i'r Farchnad Ganolog
***Bwyd Nid Bomiau – bwyd am ddim i unrhyw un sydd arno/arni ei eisiau.***
Mae Bwyd Nid Bomiau yn rhannu prydau bwyd llysieuol a figyn gyda'r newynog mewn mwy na mil o ddinasoedd ym mhedwar ban y byd, fel protest yn erbyn rhyfel, tlodi, a dinistr yr amgylchedd.
Facebook: 'Bwyd Nid Bomiau Caerdydd/ Food Not Bombs CAERDYDD'

**Tan y 30ain o Fawrth 2015**
**BANGOR** Llawr Cyntaf, Adeilad y Celfyddydau, Prifysgol Bangor LL57 2DG
***'Y Rhyfel Mawr'/'The Great War'***
Yn cynnwys arddangosfeydd ar wrthwynebwyr cydwybodol ac ar Feirdd y Rhyfel.

**Tan yr 20fed o Ebrill 2015 10am - 4pm**
**CROESOSWALLT** – Canolfan Ymwelwyr ac Arddangosfeydd, Church Terrace, SY11 2TE
***'Dead Men Talking'*** Arddangosfa Clymblaid Heddwch Croesoswallt
Celf a gwaith ysgrifenedig ar effeithiau rhyfel ar bobl. Neges o obaith: os bydd pobl gyffredin yn ewyllysio heddwch, fe ddaw. Clymblaid Heddwch Croesoswallt
t: 01691 662 753

**Rhagfyr 11eg 7.00 – 9.00pm**
**CASNEWYDD** Stafell Emlyn, Canolfan Casnewydd, Ffordd y Brenin NP20 1UH.
***Cyfarfod Cynllunio CND Casnewydd***
Trafod gweithred GIG NID TRIDENT ar Ionawr 24ain, a Safwch yn erbyn Trident, digwyddiad codi arian ym.
t: 01633 211 368 sym: 07899 997457
e: johnlminnion@ntlworld.com

**Rhagfyr 15fed**
**BANGOR** Tap a Sbeil (ger y pier)
***Dathliad Nadolig Heddwch a***
Chyfiawnder Bangor ac Ynys Môn
Croeso i bawb e: mail@bangorpeace.co.uk

**Rhagfyr 20fed 7.00pm**
**BETHESDA** - Neuadd Ogwen, Ffordd Bangor LL57 3AN
***Bethesda i Fethlehem***
Sesiwn cwestiwn ac ateb dros y we gyda Bethlehem (tu ôl i'r Wal). Cwestiynau trwy dudalen facebook y digwyddiad. Cerddoriaeth gan Banda Bacana, arddangosfa gelf Hot Dawg Assassins: 'Engedi Arts on Tour'. Cyfraniadau ar y drws (£10 yn cynnwys CD 'Heddwch') elw at broject Palesteina WERDD i helpu i ailadeiladu Gasa'n gynaliadwy.

**Ionawr 12fed 7.30pm**
**ABERYSTWYTH** Canolfan Morlan, Heol y Frenhines SY23 2HH
***Y Byd yw fy Ngwlad: arddangosfa a sgwrs***
Gabriel Carlyle ac Emily Johns ar yr unigolion a'r grwpiau a wrthwynebai'r Rhyfel Byd Cyntaf. Yn seiliedig ar bosteri Emily Johns.

**Ionawr 24ain 11.00am – 1.00pm**
**CASNEWYDD** Ysbyty Brenhinol Gwent, Ffordd Caerdydd (Y brif fynedfa)
***GIG NID TRIDENT Gwylnos gyda Phosteri***
t: 01633 211 368 sym: 07899 997457
e: johnlminnion@ntlworld.com

**Ionawr 24ain hanner dydd – 3.00 pm**
**LLUNDAIN**
***Cau Pen y Mwdwl ar Trident – Y Sgarff Heddwch yn Mynd i Lundain***
Bydd yn cysylltu San Steffan, Whitehall, y Weinyddiaeth Amddiffyn a'r Swyddfa Dramor â Sgwâr y Senedd lle cynhelir Rali. Croeso cynnes i bawb! Cysyllter â Rebecca: e: rej@acronym.org.uk ac information@cnduk.org
t: 020 770 2393.
Am gludiant o ardal Caerfyrddin/ Abertawe cysyllter â Brian Jones:
e: swanseacnd@phonecoop.coop
t: 01792 830330

**Chwefror 25ain 7.00pm**
**ABERYSTWYTH** Canolfan Morlan, Heol y Frenhines SY23 2HH
***Joyeux Noel: Ffilm a Thrafodaeth***
Dehongiad o'r cadoediad byr-fyfyr rhwng y milwyr yn y Rhyfel Byd Cyntaf pan ollyngasant eu harfau a'u gwrthdaro dros dro.
Crynwyr Morlan ac Aberystwyth.
Mynediad: £3 www.morlan.org.uk

**Mawrth 2il 7.00am** ymlaen (am fis)
**SAA BURGHFIELD**
***Cloi'r Clwydi/Atal Trident – Gwarchae***
Digwyddiad penagored i lansio mis o weithredu beunyddiol cyson ger ffatri arfau niwclear Burghfield yn Berkshire. Am gludiant o ardal Caerfyrddin/ Abertawe cysyllter â Brian Jones
e: swanseacnd@phonecoop.coop
t: 01792 830330 ardal Trefyclo, Angie Zelter e: reforest@gn.apc.org
www.actionawe.org/burghfieldlockdown

**Mawrth 7fed**
**LLUNDAIN**
***Gwrthdystiad o blaid Gweithredu ar Newid Hinsawdd***
Yn cynnwys, wrth gwrs, bloc gwrth-niwclear
www.campaigncc.org

**Mawrth 11eg**
**POBMAN**
***Trychineb niwclear Fukushima Daiichi – Pedair mlwyddiant***
Am ddigwyddiadau yng ngogledd Cymru, gweler y dudalen facebook: Stop Wylfa No Nuclear in Wales

Mawrth 14eg Hanner dydd
LLUNDAIN ymgynnull yn Hyde Park Corner
Gorymdaith: Cofio Fukushima i San Steffan am rali yn Old Palace Yard
e: david.lrcnd@cnduk.org

**Mawrth 21ain**
**GLASTONBURY** Red Brick Building
Gwahoddiad gan CND a Grŵp Heddwch Canol Gwlad yr Haf i gystadlu – neu fwynhau. ***Brwydr y Bandiau.*** Enillwch sesiwn recordio!Cofrestrwch erbyn Ionawr 1af.
e: secretary@midsomcnd-peacegroup.org.uk

**Mawrth 28ain**
**GLASGOW**
***Rali a Gorymdaith Dileu Trident***
scraptrident.org e: tp2000@gn.apc.org

**Ebrill 11eg**
**FASLANE**
***Gwarchae ar Ganolfan Niwclear Trident***
Manylion i ddod yn nes ymlaen. Gwnewch eich cynlluniau yn awr i fod yno! www.scraptrident.org
e: tp2000@gn.apc.org

**Ebrill 17eg – 19eg** gyda'r nos a phrynhawniau Sadwrn a Sul
**ABERYSTWYTH**
Canolfan Morlan SY23 2HH
***The Trial Of Hermann Ethé gan Tom Stoppard***
Cynhyrchiad Theatre Louche o ddrama newydd sbon gan Tom Stoppard am Herman Ethé a aned ym Mhrwsia ac a fu'n ddarlithydd mawr ei barch yn Aberystwyth; yn y Rhyfel Byd Cyntaf cafodd eu deulu eu gyrru o'u cartref gan dorf wrth-Almaenaidd. www.louchetheatre.com www.morlan.org.uk